

Catchphrase 2004: Ysbyty Brynaber - Week 49

Key Language

Conditional tense
Onibai
Gwybod/adnabod

New Words

Gwahodd	to invite
Dyddiadur	diary
Pryderus	worried
Esgus	excuse
Cyfrifol	responsible
Drygioni	evil
Tros ei ben a'i glustiau	head over heels
Yn rhydd	free
Anwybyddu	to ignore
Gwynt (SW)	smell
Difeddwl	thoughtless
Cysur	comfort
Dyna welliant	that's better
Arbed	to save
Awgrym	suggestion
Diofalwch	negligence
Yn anffodus	unfortunately
Ymddangos	to appear
Di-gwsg	sleepless
Gweddïo	to pray
Llosgi bysedd	to burn one's fingers
Pawb at y peth y bo	Everyone to his or her own
Eiddigeddus	jealous
Siarad yn ysgafn	to talk lightly
Egluro	to explain
Rhwydd	easy
Cymdogion	neighbours
Hynaf	eldest
Ieuengaf	youngest
Paratoi	to prepare
Heddwch	peace
Cynnig	to offer
Wedi rhydu	rusty
Hawdd	easy
Ychwaneg	more
Llais	voice
Gwych	excellent

Main Grammatical Points

Conditional tense

The conditional form of the verb figures prominently in this week's drama:

Agnes says: A fyddai Brian ddim yn y trwbwl oedd e ynddo
And Brian would not be in the trouble he was in

And later

A fyddai Brian byth bythoedd yn llosgi ei fysedd am yr ail waith
And Brian would never ever have burnt his fingers for a second time

Brian asks: Beth fasech chi o Ganolbarth Cymru yn ddweud am dywallt?
And what would you from mid Wales say for to pour?

You will note that Brian and Agnes use two different forms to convey 'I would do something'.

Agnes uses the form	Fe fyddwn i	I would
	Fe fyddet ti	You would
	Fe fyddai hi	She would
	Fe fyddai e	He would
	Fe fydden ni	We would
	Fe fyddech chi	You would
	Fe fydden nhw	They would

Brian uses the form	Baswn i	I would
	Baset ti	You would
	Basai o	He would
	Basai hi	She would
	Basen ni	We would
	Basech chi	You would
	Basen nhw	They would

The negative and question forms follow the usual pattern:

Fyddwn i ddim or Faswn i ddim – I wouldn't
Fyddet ti? Faset ti? – Would you?

Onibai

Onibai am which means: Were it not for is used with the conditional tense

Onibai am Jac Whelan fyddai Brian ddim mewn trwbwl
Were it not for Jac Whelan, Brian would not have been in trouble

Onibai amdanat ti faswn i wedi gorffen y gwaith
Were it not for you I would have finished the work.

Onibai amdanyn nhw basen ni wedi gadael yn gynnar
Were it not for them we would have finished early

Gwybod/adnabod

To know can be translated into Welsh in two ways.

To know a fact is gwybod –
Dw i'n gwybod ei fod e'n hwyr
I know that he's late

Mae hi'n gwybod hynny
She knows that

To know a person is adnabod pronounced nabod
Dw i'n nabod Brian
I know Brian
Dw i'n ei nabod hi
I know her

Ysbyty Brynaber: Episode 145

Brian is on the phone to his wife telling her that Jac Whelan is visiting Brynaber and that he should be invited to their house for a meal. Agnes is none too pleased about the idea.

Arwyn calls to see Agnes and he tells her that Eirwen Rees' family intend to bring a case of negligence against him.

Geirfa

Gwahodd	to invite
Dyddiadur	diary
Pryderus	worried
Esgus	excuse
Cyfrifol	responsible
Drygioni	evil
Tros ei ben a'i glustiau	head over heels
Yn rhydd	free
Anwybyddu	to ignore
Gwynt (SW)	smell
Difeddwl	thoughtless
Cysur	comfort
Dyna welliant	that's better
Arbed	to save
Awgrym	suggestion
Diofawch	negligence

Golygfa 1

Agnes -Pryd? ...Nos yfory? ... A dim ond Jac Whelan...? Ti a fi a'r bwbach yna?

Mae rhywun wrth y drws...Brian, edrycha, mae'n rhaid i fi fynd...Dewch i mewn...Pam mae'n rhaid iti ei wahodd e i'n ty ni o gwbl?

Arwyn - Sori, Agnes, ... wyt ti'n brysus...?

Agnes - Nac ydw, nac ydw. Dere mewn Arwyn. Eistedd. Fydda i ddim yn hir.....Brian, dw i'n edrych ar fy nyddiadur nawr: a nos yfory mae seminar i'r nyrsus ar DPT vaccinations ac mae rhaid i fi fo yno... Mae rhaid i fod yno Brian. Mae'n amhosibl cael neb i wneud fy shiftt i...Sori Brian mae'n amhosibl.

Mae'n rhaid i fi fynd. Mae rhywun 'da fi yn y swyddfa. Ie, iawn...Hwyl.

Arwyn - ...Brian...? Oes problem?

Agnes - Nac oes, nac oes. Dim byd pwysig...

Arwyn - Wel roedd e'n swnio felly o ble roeddwn i'n eistedd... Ac roedd ti'n swnio'n bryderus iawn...

Agnes - Beth sydd wedi digwydd yw hyn: mae ffrind gyda Brian...Wel, rhyw fath o ffrind...Dyn o'r enw Jac Whelan...

Agnes - Mae Jac yn yr un busnes â Brian...Prynu a gwerthu ceir...Ac am ryw reswm, mae Jac yn dod i'r dre yma prynhawn yfory i weld Brian 'bytu rhywbeth...Ac mae Brian yn moyn i fi goginio swper iddo fe...

Arwyn - Ond mae gyda ti dy seminar DPT?

Agnes - Nac oes...

Arwyn - Nac oes?

Agnes - Does dim byd gyda fi o gwbl nos yfory...

Arwyn - A! Dw i'n gweld...gwneud esgus oedd ti?

Agnes - Ie. Esgus a dim byd arall...

Arwyn - Ddim Jac Whelan oedd y boi yn y llys 'da Brian llynedd? 'Handling stolen vehicles...' neu rywbeth...?

Agnes - Ie. Jac Whelan oedd yn gyfrifol am gael Brian i drwbl. 'Crook' yw e. Ac o achos ei ddrygioni fe, aeth Brian i drwbl. Dros ei ben a'i glustiau mewn trwbl hefyd. Ond trwy lwc fe ddaeth e'n rhydd...

Arwyn? Sori. Ond pam wyt ti'n ysmegu yn fy swyddfa i...?

Arwyn - Oes ots 'da ti...?

Agnes - Oes. Beth yw'r pwynt cael polisi yn yr ysbyty yma os oes rhai o'r doctoriaid a'r llawfeddygon yn penderfynu ei anwybyddu fe...?

Arwyn - Sori. Af fi mas...

Agnes - Na, rho'r sigaret mas ar y soser 'ma.

Arwyn - Sori, Agnes. Wnes i ddim meddwl.

Agnes - Mae gwynt fflag lond y swyddfa 'ma nawr. Fydd pawb yn meddwl taw fi sydd wedi bod wrthi...

Arwyn - Wyt ti eisiau i fi agor y ffenest...?

Agnes - Fe wnafe fi.

Arwyn - Sori. Roedd ysmegu fel yna yn beth hollol ddifeddwl i wneud. Sa i'n gwobod beth ddaeth drosto i.

Agnes - Wyt ti'n ysmegu llawer?

Arwyn - Ysmegu er mwyn ysmegu. Mae e'n gysur mawr i fi...

Agnes - Dyna ni. Dyna welliant...

Arwyn - Pam na ewch chi mas i restaurant nos yfory? Fyddai hynny'n arbed iti wahodd Whelan i'r ty?

Agnes - Byddai. Awgrym da. Dw i'n ffael dioddef bod fwy na phum eiliad yn ei gwmni e. A dweud y gwir wrthot ti, bob tro wy'n clywed enw Jac Whelan, dw i'n mynd i deimlo'n reit dost... Sori. I barablu ymlaen 'bytu Jac Whelan. Beth alla i wneud i ti? Jest wedi galw yma am fflag fach slei nes ti, ie? Defnyddio fy swyddfa i am smôc?

Arwyn - Nage...

Agnes - Arwyn? Beth sydd?

Arwyn - Efallai bod gyda fi broblem...

Agnes - Problem? Pa fath o broblem?

Agnes - Wyt ti eisiau i fi moyn gwydraid o ddwr iti?

Arwyn - Nac ydw Nac ydw, dw i'n iawn, diolch...Neu efallai ddim. Dw i ddim yn siwr beth sy'n mynd i ddigwydd...

Agnes - Am beth wyt ti'n sôn?

Arwyn - Busnes Mrs Eirwen Davies...O Ward Enlli?

Agnes - Y fenyw gafodd ddwy strôc yr wythnos ddiwetha?

Arwyn - A 'brain haemorrhage'....

Agnes - Beth amdani hi? Y peth diwethaf glywais i oedd bod y llawdriniaeth gafodd hi'n llwyddiannus?

Arwyn - Do. Fe fuodd hi.

Agnes - Ond?

Arwyn - Welais i ei merch hi jest nawr. A dwedodd hi wrtho i ei bod hi wedi siarad â'i chyfreithwr. Ac mae'r teulu yn meddwl dod ag achos o ddiofalwch yn fy erbyn i.

Agnes - Diofalwch?

Arwyn - Ie. Diofalwch. 'Negligence.' Ond does dim byd yn bendant eto. Felly, dw i jest yn croesi 'mysedd...

Ysbyty Brynaber: Episode 146

Jenny meets Agnes at the supermarket. Agnes complains that Brian has invited Jac Whelan over to the house for a meal. It's a prospect which Agnes does not relish.

Brian and Jac Whelan meet in a local pub. Firstly Agnes and Jenny.

Geirfa

Yn anffodus	unfortunately
Ymddangos	to appear
Di-gwsg	sleepless
Gweddïo	to pray
Llosgi bysedd	to burn one's fingers
Pawb at y peth y bo	Everyone to his or her own
Eiddigeddus	jealous
Siarad yn ysgafn	to talk lightly
Egluro	to explain

Golygfa 1

Jenny - Agnes!

Agnes - Jenny...Shwmai? Wyt tithau'n siopa hefyd?

Jenny - Ydw. Ar fy ffordd i mewn ydw i. Isio rhyw ychydig o bethau ar gyfer y fflat. Papur ty bach.

Powdwr golchi. Mae gen ti lwyth mawr yn y troli yma. Tyrd i mi roi help llaw iti...

Beth sydd gen ti? 'Dinner party'?

Agnes - Yn anffodus, oes...

Jenny - Anffodus? Pam wyt ti'n dweud hynny?

Agnes - Wyt ti'n cofio Jac Whelan?

Jenny - Y 'crook' fel oeddet ti yn ei alw fo.

Agnes - Dyna beth dw i'n ei alw fe o hyd. 'Crook' a 'conman'. O'n i'n gwybod o'r foment wnes i gwrdd â Jac Whelan am y tro cyntaf erioed taw dyna beth oedd e. A fyddai Brian ddim yn y trwbl oedd e ynddo fe mis Ebrill diwethaf oni bai amdano fe.

Jenny - Dyna pryd roedd yr achos llys? Mis Ebrill y llynedd?

Agnes - Ie.

Jenny - Mae o'n ymddangos mor bell yn ôl erbyn hyn.

Agnes - I ti efallai, Jenny. Ond ddim i fi. Wy'n cofio y nosweithiau digwsg cyn yr achos traddodi. Cofio gweddïo...

Jenny - Gweddïo?

Agnes - Ydw. Gweddïo a gweddïo yn y gobaith na fyddai digon o dystiolaeth yn cael ei chyflwyno gan y Gwasanaeth Erlyn i anfon Brian i Lys y Goron i sefyll ei brawf. Scam Jac Whelan oedd y cyfan. Doedd Brian ddim yn gwybod ei fod e'n gwerthu ceir oedd wedi cael eu dwyn yn Birmingham...

Jenny - Ond roedd popeth yn iawn yn y diwedd i Brian. Mi ddaeth o'n rhydd...

Agnes - Do. Ond wna i byth faddau i Jac Whelan am ei gael e i drwbl yn y lle cyntaf...

Jenny - Ac mae o'n dod draw i'r ty heno?

Agnes - Ydy. Yn anffodus...Diolch am dy help.

Jenny - Croeso. Alla i ofyn cwestiwn...?

Agnes - Wrth gwrs...

Jenny - Pam mae Jac Whelan yma o gwbl?

Agnes - Ddaeth e draw o Birmingham bore 'ma. Ar fusnes.

Jenny - Gonest, gobeithio?

Agnes - Wrth gwrs. Fyddai Brian byth bythoedd yn llosgi ei fysedd am yr ail waith. Roedd beth ddigwyddodd llynedd yn ddigon o wers inni i gyd...

Golygfa 2

Brian - Dyma ti...Lager top a wisgi 'chaser' mawr...

Jac - Beth sydd wedi digwydd iti? You're not still swilling that black Irish peatbog rubbish down your throat?

Brian - Pawb at y peth y bo, Jac. Dw i'n licio Guinness...

Jac - I ti. Ti'n true gent, Brian Rees!...Cheers!

Brian - Iechyd da!

Jac - Ddim hwn ydy'r local? Nage?

Brian - Fan hyn? Nage.

Jac - Thought as much...

Brian - Beth sy'n gwneud i ti feddwl hynny?

Jac - Ti a young flesh. Edrych ar honna draw fan acw. Y stiwdent fach yna. Rwyd ti wastad wedi bod yn very pro-active in that particular field of human activity....

Brian - Dw i'n trio fy ngorau.

Jac - Dw i ond yn 'jealous', met. What's that big Word in Welsh fôr 'jealous'?

Brian - Eiddigeddus...eiddigeddus

Jac - To much of mouthful for me Eiddig... jealous is easier ... So...

Brian - So.

Jac - Sut mae crossword puzzle dy fywyd di, Brian...? I fyny ag i lawr neu jyst ar draws...?

Wyt ti'n dal hefo'r nyrs fach 'na o hyd?

Brian - Ydw.

Jac - Still going strong? Beth sy, Brian? Sore subject?

Brian - Na. Jyst...

Jac - Beth?

Brian - Dw i ddim yn licio clywed neb yn siarad yn ysgafn am Wendy...

Jac - Ac Agnes? So. In case I put my big, thick, fat foot in it: what's the state of play between you and your Mrs?

Brian - Mae hi'n meddwl fod pethau drosodd rhwng Wendy a fi.

Jac - A sut wyt ti'n egluro'r pregnancy?

Brian - Mi fydd Wendy'n cael y babi. Mi fydda i'n talu. Ond o ran teulu: Agnes, Rhodri a Beca ydy 'nheulu fi.

Jac - So. That's the party line.

Brian - Ia. Dyna'r party line.

Jac - Da iawn. Ond pam wyt ti isio dragio fi draw, Brian? I know that your Mrs hates my guts.

Always has done, always will...

Ysbyty Brynaber: Episode 147

Jac Whelan has arrived for supper at the Rees household. Wendy is obviously not too happy that her husband is maintaining a business partnership with the man from Birmingham.

Brian tells Jac that his wife knows nothing of the agreement between the two men to go half shares in the purchase of the boat.

Geirfa

Rhwydd	easy
Cymdogion	neighbours
Hynaf	eldest
Ieuengaf	youngest
Paratoi	to prepare
Heddwch	peace
Cynnig	to offer
Wedi rhydu	rusty
Hawdd	easy
Ychwaneg	more
Llais	voice
Gwych	excellent

Golygfa 1

Jac - Ma'r spaghetti bolognaise 'ma yn A1, Mrs R.

Agnes - Mae e'n beth eitha rhwydd i'w wneud....

Brian - Mwy o win, Jac?

Jac - Top up 'te, mêt. Sori? Ble wnaethoch chi ddweud oedd y plant hefyd?

Agnes - Gyda Roger a Kim.

Jac - Roger a Kim? Ydw i'n eu nabod nhw, Brian?

Brian - Go brin...

Agnes - Cymdogion i ni ydyn nhw...

Jac - Ah! Get you, Mrs R.

Brian - Mae Rhodri yn ffrind i Jeremy, eu mab hynaf nhw.

Agnes - Ac mae Beca hefyd yn eitha ffrindiau gyda Branwen.

Brian - Eu merch ieuengaf nhw...

Jac - Rhyw fath o sleep-over yw hwn 'te....?

Agnes - Ie.

Brian - Y ty gwyn ar y tro, wrth iti ddod am y ty yma. Yn y bôn, roedd Agnes yn meddwl y galla hi baratoi y swper heno mewn mwy o heddwch petai Rhodri a Beca ddim o gwmpas...

Agnes - Ac roedd Kim yn ddigon caredig i gynnig mynd â nhw oddi ar fy nwylo i.

Jac - Chwarae teg i, Kim, ddweda i...

Agnes - Beth yw hanes dy blant ti, Jac? Mae'n siwr eu bod nhw wedi tyfu erbyn hyn?

Jac - Ydyn, maen nhw....

Agnes - Faint ydy eu hoed nhw 'te...?

Brian - Dw i am newid y CD...Oes gan rhywun unrhyw 'requests'?

Agnes - ...O, Brian!

Brian - Beth?

Agnes - Edrycha ar dy grys di...

Brian - Beth amdano fo?

Jac - Ti wedi beth ydy'r gair hefyd...? Spill? Arllwys? Tywallt?

Agnes - Arllwys fydden i'n ddweud.

Brian - A tywallt faswn i'n ddweud. Saws bolognaise drosto fo i gyd ..

Agnes - Sut fuest ti mor fochaid, Brian?

Brian - Beth fasech chi o Ganolbarth Cymru yn ddweud am dywallt, Jac?

Jac - Dim syniad....

Agnes - Mae'n rhaid fod rhyw air.

Jac - Bownd o fod. Ond dw i ddim yn ei gofio fo, Mrs R. Mae byw yn Birmingham ers dros ugain

mlynedd wedi...what's the word?...am rusty?

Agnes - Rhydu?

Jac - Dyna'r un. Mae fy Nghymraeg i wedi rhydu. A deud y gwir, dw i ddim hyd yn oed yn meddwl yn Gymraeg. Dw i'n meddwl yn Saesneg.

Brian - Ie. Ond wyt ti'n breuddwydio yn Saesneg?

Jac - Breuddwydio yn Saesneg? Siwr o fod...

Brian - Pwy sydd isio clywed Elvis Costello?

Agnes - Rho rhywbeth ychydig bach yn dawelach ymlaen.

Brian - Beth wyt ti licio, Jac?

Jac - Dw i'n ddyn hawdd i fy mhlesio fel ti'n gwybod, Brian. Rho di beth bynnag mae Mrs R eisiau....

Jac - Dw i'n licio hon.

Brian - A fi.

Agnes - Reit. Dw i'n mynd i gliro'r llestri os ydy pawb wedi gorffen.

Jac - Roedd o'n A1, Mrs R. Jest y peth...

Brian - Gobeithio dy fod ti ddim wedi stwffio dy hun ormod, Jac. Achos mae rhagor o fwyd i ddod. Pwddin ac ati..

Jac - You remember you and me in that student pub? When I asked you what the party line was regarding you, your wife and your mistress?

Brian - ...Ydw...

Jac - Wnes i anghofio gofyn un peth arall...

Brian - Beth?

Agnes - Beth sy'n bod? Rych chi wedi mynd yn dawel iawn yn sydyn?

Brian - Gwrando ar Cerys Matthews ydan ni.

Agnes - Mae llais gwych gyda hi on'd oes?

Jac - Oes.

Agnes - Dere i fi fynd â'r gwydryn gwag yma. Brian, wnei di agor y botel win melys sydd i fynd 'da'r 'dessert'?

Jac - Ydy hi'n gwybod am cwch hwylio?

Brian - Gwybod beth?...

Jac - That I'm the co-owner.

Brian - Nac ydy. A does dim rheswm iddi wybod hynny chwaith...

Jac - I agree. Knowing how much she absolutely loathes me.

Synopsis

Arwyn is concerned that a charge of negligence might be brought against him after one of his patients had suffered a brain haemorrhage.

Jac Whelan has arrived on the scene and has been invited to Brian's house for supper. They discussed the purchase of the sailing boat.

Test yourself

1. What is the Welsh for 'were it not for you'?
 - a) onibai amdani hi
 - b) onibai amdanyrn nhw
 - c) **onibai amdanat ti**
2. What's the Welsh phrase for 'to burn your fingers'?
 - a) llosgi dy law
 - b) berwi dy fysedd
 - c) **llosgi dy fysedd**
3. How would you ask 'What would you say?' into Welsh?
 - a) Beth wyt ti'n ddweud?
 - b) **Beth faset ti'n ddweud?**
 - c) Beth oeddet i'n ddweud?
4. What's the Welsh word for 'jealous'?
 - a) eiddigus
 - b) **eiddigeddus**
 - c) eiddigodd
5. How would you say 'I know him' in Welsh?
 - a) Dw i'n gwybod e
 - b) Dw i'n adnabod e
 - c) **Dw i'n ei adnabod e**
6. What's the Welsh phrase for 'to talk lightly'?
 - a) **siarad yn ysgafn**
 - b) siarad yn uchel
 - c) siarad yn dawel